

Deall cymhellion ffermwyr: Ffermydd Bach a Bach lawn

Holiadur

20 Gorffennaf 2021

Rhif cyfeirnod y contract: C178/2019/2020

Dr Dylan Bradley

Cyfarwyddwr, Agribusiness Consulting, IHS Markit

Professor Berkeley Hill

Athro Emeritws mewn Dadansoddi Polisi, Coleg Imperial, Llundain

Llorenc O'Prey

Uwch Ymgynghorydd, Wavehill

Endaf Griffiths

Cyfarwyddwr, Wavehill

Eirwen Williams

Cyfarwyddwr, Menter a Busnes

Cynnwys

1	HOLIADUR.....	1
----------	----------------------	----------

Deall cymhellion ffermwyr

Adroddiad Terfynol Drafft - holiadur

Fe contractiodd Llywodraeth Cymru IHS Markit i helpu i ddarparu dealltwriaeth o gymhellion unigol a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n digwydd yn yr aelwydydd ffermio hynny a ddiffinnir yn economaidd fel rhai bach iawn a bach. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr holiadur. Awduron yr adroddiad yw Dr Dylan Bradley (IHS Markit) a'r Athro Berkeley Hill (Coleg Imperial, Llundain). Cwblhawyd y gwaith arolygu gan Wavehill (Llorenç O'Prey ac Endaf Griffiths). Rhoddodd Eirwen Williams (Menter a Busnes).

1 Holiadur

Dilysu a hidlo (Validation and filtering)

1.1 A oedd eich gwerthiannau ffermio heb gynnwys y cymhorthdal (subsidy) yn fwy na £125,000 yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?

Os oedd dros £ 125,000, llwybr i neges diolch

Nodyn i'r ymchwilydd: Mae'r cwestiynau hyn wedi'u hanelu at bennaeth yr aelwyd. Os nad ydych yn siarad â'r unigolyn a enwir, gofynnwch a yw'r ymatebydd yn gallu ateb ar ran pennaeth yr aelwyd? Os yr ateb yw 'na', ceisiwch siarad â'r unigolyn a enwir gan ddefnyddio galwad yn ôl os oes angen.

Adran 1: Daliad y teulu

1.2 Lleoliad daearyddol (o'r manylion cyswllt)

1.3 Cyfanswm arwynebedd (ha) y daliad

1.4 Beth yw deiliadaeth (tenure) eich tir? *Rydym yn berchen yr holl dir (1) Rydym yn berchen mwyafrif o'r tir (2) Rydym yn rhentu mwyafrif o'r tir (3) Rydym yn rhentu'r holl dir (4)*

1.5 Pa mor hir ydych chi wedi ffermio'r tir yma? (Mewn blynyddoedd)

1.6 A oedd gennych chi unrhyw brofiad blaenorol o weithio ar y tir cyn i chi ddechrau ffermio'r tir yma: *Wedi ffermio mewn man arall fel ffermwr annibynnol (1) Wedi gweithio fel rheolwr fferm (2) Wedi bod yn weithiwr fferm (3) arall, nodwch: (4)*

1.7 Sut daethoch chi i ffermio'r tir yma? (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol) *Wedi prynu'r tir (1) Wedi etifeddu'r (inherited) fferm (2) Wedi rhentu'r tir (3) Fferm wedi'i rannu (4) I redeg fferm deuluol (5) Arall, os gwelwch yn dda (6)*

1.8 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch math o fferm yn orau? *Cig eidion (1) Defaid (2) Cig eidion a defaid (3) Llaeth (4) Dofednod (poultry) (5) Moch (6) Garddwriaeth (7) Ffermio Cymysg (8) Ceffylau (9)*

1.9 A yw'ch fferm, neu erioed, wedi ei chynnwys mewn cynllun amaeth-amgylcheddol (agri-environmental) neu gadwraethol (conservation)? *Ydy (1) Nac ydy (2)*

1.10 Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw un o'r cynlluniau canlynol? *Glastir Lefel Mynediad / Uwch (1) Glastir Tir Comin (gan gynnwys Glastir Tir Comin Uwch) (2) Glastir Organig; Cynllun Fferm Coetir (3) Cynllun Fferm Coetir Premiwm (4) Cynllun Creu Coetir Glastir (5) Premiwm Gwella Tir (6) Gwaith Cyfalaf Uwch Glastir (7) Gwaith Cyfalaf Rheoli Coetir Glastir (8)*

1.11 A oes unrhyw weithgareddau heblaw waith amaethyddol sydd yn cael eu rhedeg o'ch fferm? Ticiwch bopeth sy'n berthnasol: *Twristiaeth (Gwely a Brecwast, llety fferm, gwersylla, glampio) (1) Ynni adnewyddadwy (2) Rhentu adeiladau (3) Gwerthiannau fferm (siop fferm, gwerthu uniongyrchol, gwerthu blychau, ac ati) (4) Contractio (5) Cadw gêm (6) Coetir (7) Arall (nodwch) (8)*

Adran 2: Hunan-delwedd

- 2.1 Ydych chi'n gweld eich fferm yn bennaf fel busnes? *Ydw (1) Nac ydw (2)*
- 2.2 Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw waith cadwraeth amgylcheddol (environmental conservation) i ddyfodol eich fferm? *Yn hynod o bwysig (1) Pwysig iawn (2) Cymedrol bwysig (3) Yn ychydig bach yn bwysig (4) Ddim yn bwysig o gwbl (5)*
- 2.3 I ba raddau ydych chi'n gweld eich hun yn aelod o'r gymuned ffermio? *Yn gryf (1) Yn gymedrol (2) Yn wan (3) Dim o gwbl (4)*
- 2.4 Ydych chi'n gweld eich teulu fel rhan o'r gymuned wledig leol? *Yn gryf (1) Yn gymedrol (2) Yn wan (3) Dim o gwbl (4)*
- 2.5 A ydych chi neu aelodau o'ch teulu yn cymryd rhan mewn sefydliadau cymdeithasol a ffermio lleol, e.e. clwb ffermwyr ifanc, grwpiau gwirfoddol, eglwys / capel neu glybiau? *Llawer (1) Rhywfaint (2) Ddim o gwbl (3)*

Adran 3: Aelwyd y prif ffermwr / deiliad

Bydd y cwestiynau yn yr adran hon yn ein helpu i ddeall nodweddion gwahanol ffermydd ac aelwydydd ledled Cymru.

- 3.1 Faint o oedolion (dros 18) sydd yn byw yn eich cartref ac yn rhannu o leiaf rhai prydau bwyd?
- 3.2 I bawb dros 18 oed, ac yn dechrau gyda chi'ch hunan, dywedwch wrthyf am:
- Perthynas â'r ymatebydd (1)
 - Oedran (2)
 - Rhyw (3)
 - Oes ganddyn nhw unrhyw gymwysterau addysg ôl-ysgol sy'n gysylltiedig â ffermio (fel HND, gradd neu CGC (NVQ))? (4)
 - A oes ganddynt unrhyw addysg ôl-ysgol neu gymwysterau proffesiynol nad ydynt yn gysylltiedig â ffermio (megis HND, gradd, gradd ôl-raddedig, neu gymwysterau CGC (NVQ))? (5)
- 3.4 Faint o blant a phobl ifanc (dan 18 mlwydd oed) sy'n byw ar y fferm?
- 3.5 Ydych chi allu siarad Cymraeg? *Ydw (1) Nac ydw (2)*
- 3.5 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch gallu i siarad Cymraeg orau? *Rwy'n rhugl yn y Gymraeg (1) Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg (2) Dydw i ddim ond gallu siarad ychydig bach o Gymraeg (3) Gallaf ddweud ychydig eiriau yn unig yn y Gymraeg (4)*
- 3.6 Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg? *Pob Dydd (1) Yn wythnosol (2) Yn llai aml (3) Byth (4)*

- 3.7 Ble ydych chi'n siarad Cymraeg mwyafrif o'r amser? *mewn gwaith / busnes (1) cartref efo'r teulu (2) yn y gymuned (3) arall (4)*
- 3.8 Dros y 12 mis diwethaf, faint o oedolion sy'n aelodau o'ch teulu sydd wedi gweithio ar y fferm (naill ai dros dro neu'n barhaol) heb gynnwys eich hun?
- 3.9 Faint o oedolion eich cartref (gan gynnwys eich hun) sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig y tu allan i'r busnes fferm, sy'n: 35 awr yr wythnos neu fwy (1) Llai na 35 awr y wythnos (2)
- 3.10 Faint o oedolion eich cartref (gan gynnwys eich hun) sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig y tu allan i'r busnes fferm, sy'n: 35 awr yr wythnos neu fwy (1) Llai na 35 awr y wythnos (2)
- 3.11 Ydych chi wedi meddwl beth fyddwch chi'n ei wneud efo'r fferm pan fyddwch chi'n penderfynu stopio ffermio? Ydw (1) Nac ydw (2)
- 3.12 Os ydych chi wedi meddwl am olyniaeth, pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi (ticiwch bob un sy'n berthnasol):*Rydyn wedi dewis rhywun i gymryd drosto'r fferm (1) Hyd yma ni nodwyd olynnydd parod (2) Mae'n rhy gynnar i feddwl am olynnydd neu i rywun ddangos diddordeb mewn cymryd drosto'r fferm (3)*
- 3.13 Os nodwyd olynnydd, pryd mae'r trosglwyddiad yn debygol o ddigwydd: *fewn 5 mlynedd (1) Rhwng 5 a 10 mlynedd nesa (2) Yn fwy na 10 mlynedd (3)*
- 3.14 Sut fydd y trosglwyddiad yn cael ei wneud:*Rhoi'r fferm fel anrheg (1) Gwerthu (2) Cymysgedd (3) Arall (nodwch) (4)*
- 3.15 Os na nodwyd olynnydd, beth fydd yn digwydd i'r fferm: *Bydd y fferm yn cael ei werthu (1) Bydd y fferm yn cael ei rhentu allan (2) Mae'n ansicr (3)*
- 3.16 Hoffwn ofyn ichi am eich rhesymau dros ffermio. Ar gyfer pob un o'r posibilïadau canlynol, nodwch a yw'n "bwysig iawn", "rhywfaint yn bwysig" neu "ddim yn bwysig o gwbl" i chi. *Pwysig iawn (1) Rhywfaint yn bwysig (2) Ddim yn bwysig o gwbl (3)*

Cynhenid

- Mwynhad o dasgau gwaith ffermio (e.e. magu defaid) (1)
- Yn well gen i gweithio yn yr awyr agored (2)
- Annibyniaeth ac efo rheolaeth ar y sefyllfa. (3)
- Mwynhad o weithgareddau sy'n gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd (4)

Annatod

- Fel ffordd i gynhyrchu incwm ar gyfer byw (5)
- Fel ffordd o adeiladu busnes (6)

- Fel ffordd o ddarparu amodau gwaith deniadol (7)
- Fel ffordd o ddarparu tai deniadol ac amodau byw (8)
- Fel ffordd o sicrhau cyfoeth ac asedau (assets) ar gyfer y dyfodol (9)
- Fel ffordd o leihau fy maich treth (10)

3.17 Hoffwn ofyn ichi am eich rhesymau dros ffermio. Ar gyfer pob un o'r posibiladau canlynol, nodwch a yw'n "bwysig iawn", "rhywfaint yn bwysig" neu "ddim yn bwysig o gwbl" i chi. *Pwysig iawn (1) Rhywfaint yn bwysig (2) Ddim yn bwysig o gwbl (3)*

Cymdeithasol

- Ennill cydnabyddiaeth fel ffermwr (11)
- Perthyn i'r gymuned ffermio (12)
- Perthyn i'r gymuned wledig ehangach (13)
- I barhau â thraddodiad teuluol (14)
- Gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu (15)

Mynegiadol

- Teimlo balchder wrth reoli'r amgylchedd (16)
- Ennill hunan-barch am wneud swydd bwysig (17)
- I ddangos galluoedd a sgiliau personol arbennig (18)
- Cyfle i fod yn greadigol a gwreiddiol (19)
- Cwrdd â her, cyflawni amcan, twf personol a chymeriad (20)

Adran 4: Gwneud penderfyniadau o fewn aelwydd

Esboniwch sut mae'r math o benderfyniadau canlynol yn cael eu gwneud yn eich cartref: *Fi yn unig, Fy mhartner yn unig, Mae fy mhartner a fi'n gwneud y penderfyniadau gyda'n gilydd, Mae fy rhieni a fi'n gwneud y penderfyniadau gyda'n gilydd, Mae fy plant ac fi'n gwneud y penderfyniadau gyda'n gilydd, Mae aelodau eraill o'r teulu (e.e. brodyr a chwiorydd) a fi'n gwneud y penderfyniadau gyda'n gilydd, Fy rhieni yn unig, Arall (nodwch os gwelwch yn dda)*

4.1 Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch sut mae'r fferm yn cael ei redeg os yw amodau economaidd yn mynd yn anodd (e.e. rheoli costau, hwsmonaeth anifeiliaid, defnyddio cemegau)?

4.2 Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch newidiadau mawr sy'n effeithio ar allu'r fferm i fodoli os yw amodau economaidd yn mynd yn anodd (e.e. gwerthu neu brynu tir, arallgyfeirio, cael gwared â swyddi)?

4.3 Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a pa opsiynau i gymryd?

4.4 Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch cyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth gan aelodau'r cartref? Ychwanegwch "Unigolion" at yr opsiynau ateb.

4.5 Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn busnesau oddi ar y fferm? Ychwanegwch "Unigolion" at yr opsiynau ateb.

Adran 5: Ymateb i newidiadau ar ôl Brexit

5.1 Sut ydych chi'n meddwl y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar eich incwm o weithgareddau amaethyddol, taliadau sylfaenol a Glastir? *Bydd yr incwm tua'r un peth (1) Bydd yr incwm yn cynyddu (2) Bydd yr incwm lleihau (3)*

5.2 Ydych chi'n teimlo eich bod wedi cymryd rhan mewn digon o drafodaethau am y mecanweithiau cymorth fferm newydd a bydd yn bodoli pan fydd y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd? *Ydw (1) Nac ydw (2) Ddim yn siŵr (3)*

5.3 A ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar eich fferm achos mae'r Deyrnas Unedig yn mynd i adael yr Undeb Ewropeaidd?

- Newid fy math o ffermio (newid mentrau neu'r cydbwysedd rhyngddynt) (1)
- Cynyddu'r allbwn o weithrediadau amaethyddol presennol (2)
- Lleihau'r defnydd o fewnbynau amrywiol a brynwyd (fel bwyd anifeiliaid neu wrtaith (fertilizer) (3)
- Lleihau'r defnydd o lafur taledig ar y fferm (4)
- Lleihau costau sefydlog eraill (e.e. peiriannau) (5)
- Cynyddu'r faint o arallgyfeirio (diversification) presennol ar y fferm (e.e. twristiaeth, rhentu eiddo) (6)
- Dechrau gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm (7)
- Dechrau darpariaethau newydd o nwyddau cyhoeddus (Glastir, cynlluniau coetir, ac ati) (8)
- Cynyddu'r faint o dir sydd yn cael eu ffermio (prynu neu rentu) (9)
- Lleihau'r faint o dir sydd yn cael eu ffermir (gwerthu tir neu osod tir) (10)
- Arall, disgrifiwch: (11)

- Dim un o'r uchod (12)

5.4 Ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol ar eich fferm o ganlyniad i'r Deyrnas Unedig gadael yr Undeb Ewropeaidd yn y pum mlynedd nesaf? Defnyddiwch y raddfa i nodi pa mor debygol ydych chi o wneud y newidiadau hyn. Hynod debygol; Tebygol; annhebygol; Hynod annhebygol *Hynod Debygol (1) Tebygol (2) Ddim yn debygol nac annhebygol (3) Annhebygol (4) Hynod Annhebygol (5)*

- Newid fy math o ffermio (newid mentrau neu'r cydbwysedd rhyngddynt) (1)
- Cynyddu'r allbwn o weithrediadau amaethyddol presennol (2)
- Lleihau'r defnydd o fewnbynau amrywiol a brynwyd (fel bwyd anifeiliaid neu wrtaith (fertilizer) (3)
- Lleihau'r defnydd o lafur taledig ar y fferm (4)
- Lleihau costau sefydlog eraill (e.e. peiriannau) (5)
- Cynyddu'r faint o arallgyfeirio (diversification) presennol ar y fferm (e.e. twristiaeth, rhentu eiddo) (6)
- Dechrau gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm (7)
- Dechrau darpariaethau newydd o nwyddau cyhoeddus (Glastir, cynlluniau coetir, ac ati) (8)
- Cynyddu'r faint o dir sydd yn cael eu ffermio (prynu neu rentu) (9)
- Lleihau'r faint o dir sydd yn cael eu ffermir (gwerthu tir neu osod tir) (10)
- Arall, disgrifiwch: (11)
- Dim un o'r uchod (12)

5.5. Os gwnaed newidiadau eisoes, a yw COVID-19 wedi effeithio ar unrhyw un o'r newidiadau hyn? *Ydy / Nac ydy*

5.5 Os ydy, disgrifiwch sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y newid? *Peidiwch ag annog, mae atebion tebygol yn cynnwys "Ni fyddwn wedi gwneud y newid pe na bai COVID-19 wedi digwydd", "Ni fyddwn wedi gwneud y newid ar hyn o bryd pe na bai COVID-19 wedi digwydd)"*

5.7 A oes unrhyw un o'r newidiadau canlynol wedi digwydd yn eich cartrefa achos mae'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (peidiwch ag ystyried effaith COVID-19 ar eich atebion)?

- Rwyf wedi cymryd gwaith oddi ar y fferm (gan weithio i berson neu sefydliad arall) (1)
- Mae fy mhartner wedi cymryd gwaith oddi ar y fferm (gan weithio i berson neu sefydliad arall) (2)

- Mae aelod (au) arall y teulu wedi cymryd gwaith oddi ar y fferm (gan weithio i berson neu sefydliad arall) (3)
- Rwyf wedi neu fy mhartner neu aelod arall o'r teulu wedi dechrau bod yn hunangyflogedig oddi ar y fferm neu gynyddu'r amser maen nhw'n gweithio mewn busnes y maent yn berchen arno i gyd neu'n rhannol (4)

5.8 Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw un o'r newidiadau canlynol yn digwydd yn eich cartref o ganlyniad i'r Deyrnas Unedig gadael yr Undeb Ewropeaidd yn y pum mlynedd nesaf? Defnyddiwch y raddfa i nodi pa mor debygol yw'r newidiadau hyn yn eich barn chi. Hynod debygol; Tebygol; annhebygol; Hynod annhebygol: *Hynod Debygol (1) Tebygol (2) Ddim yn debygol nac annhebygol (3) Annhebygol (4) Hynod Annhebygol (5)*.

- Rwyf fynd i gymryd gwaith oddi ar y fferm (gan weithio i berson neu sefydliad arall) (1)
- Bydd fy mhartner yn cymryd gwaith oddi ar y fferm (yn gweithio i berson neu sefydliad arall) (2)
- Bydd aelod (au) eraill fy nheulu yn cymryd gwaith oddi ar y fferm (gan weithio i berson neu sefydliad arall) (3)
- Rwyf fynd i / partner neu aelod arall o'r teulu mynd i ddod yn hunangyflogedig oddi ar y fferm mewn busnes y maent yn berchen arno i gyd neu'n rhannol (4)
- Bydd yr holl deulu yn gadael ffermio (5)
- Bydd aelod arall o'r teulu yn cymryd drosodd y fferm (6)

Adran 6: Cwestiynau segmentu

Atebwch y cwestiynau canlynol fel y byddech chi fel arfer, e.e. cyn neu ar ôl COVID-19. Ar raddfa 1-5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim yn bwysig o gwbl' a 5 yn golygu 'hynod o bwysig '),

6.1 pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell o wybodaeth a chyngor i chi yn bersonol?

6.2 faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cyrchu gwybodaeth neu gyngor am ffermio ar-lein?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

6.3 Mae sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach i mi na sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'r fferm (1)

6.4 Dylai pob fferm, ymdrechu i fod mor amgylcheddol gynaliadwy (environmentally sustainable) â phosib (2)

6.5 Mae cydweithredu â ffermwyr eraill yn gwella sut rydw i'n rheoli fy fferm i (3)

6.6 Rwyf bob amser yn gwneud amser i gymdeithasu â ffermwyr eraill (4)

6.7 Rwyf bob amser yn edrych i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd i wella gweithrediad fy fferm i (5)

6.8 Rwy'n awyddus i ddefnyddio technoleg newydd ar fy [fferm / tyddyn / fferm hobi] mor gyflym â phosib (6)

6.9 Rwy'n hapus i gael cyngor ar reoli'r amgylchedd naturiol ar fy [fferm / tyddyn / hobi] (7)

6.10 Mae gen i gynllun cadarn i drosglwyddo fy [fferm / tyddyn / fferm hobi] i rywun arall (nid cwestiwn Cymraeg) (8)

6.11 Rwy'n teimlo bod fy [fferm / tyddyn / fferm hobi] yn fwy o fusnes na ffordd o fyw (nid cwestiwn Cymraeg) (9)

6.12 Mae'n bwysig i mi fod y [fferm / tyddyn / fferm hobi] yn aros efo fy nheulu (nid cwestiwn segmentu Cymru) (10)

Adran 7: Cyllid yr aelwyd

Gan ddefnyddio graddfa o “Nid oes gennyf y math hwn o incwm”, “ddim yn bwysig”, “defnyddiol”, “pwysig” neu “hanfodol”, dywedwch pa mor bwysig yw'r ffynonellau incwm canlynol i incwm eich cartref:

7.1 Gwarged masnachu (trading surplus)(gwerthiannau heb gostau cynhyrchu) o nwyddau fferm (e.e. da byw, llaeth a chnydau) heb y Cynllun Taliad Sylfaenol (1)

7.2 Taliadau neu grantiau cynllun amgylcheddol, ar ôl costau cwrdd â'r ymrwymadau i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol (2)

7.3 Cynllun Taliad Sylfaenol (3)

7.4 Gwarged o weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd (e.e. twristiaeth, ynni adnewyddadwy) (4)

7.5 Contractio ar ffermydd eraill (5)

7.6 Cyflogau a gwaith i ffwrdd o'r fferm, neu gan fusnesau / proffesiynau eraill (heblaw contractio) (6)

7.7 Enillion ar fuddsoddiadau (fel eiddo rhent neu ddifidendau) (7)

7.8 Pensiynau (8)

7.9 Arall (nodwch) (9)

7.10 A fydddech chi'n gallu nodi pa un o'r ystodau canlynol sy'n ymwneud agosaf â chyfanswm incwm gros eich cartref ar gyfer y llynedd; dyma'r incwm, o bob ffynhonnell, sy'n dod i'r cartref (ffermwr a'i phartner yn unig) cyn i unrhyw drethi gael eu didynnu?

Adran 8: Unrhyw sylwadau eraill?

8.1 Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu fyfyrdodau eraill?

8.2 A fyddai'n bosibl i ail-gysylltu efo chi mewn tua chwe mis i weld a yw eich barn wedi newid am y cwestiynau a thrafodwyd yn yr adran yma? *Bydd (1) Na fydd (2)*

Manylion Cyswllt

Dr Dylan Bradley

Cyfarwyddwr, Agribusiness Consulting

Dylan.Bradley@ihsmarkit.com

IHS Markit Customer Care

mailto:CustomerCare@ihsmarkit.com

Asia a Rim y Môr Tawel

Japan: +81 3 6262 1887

Asia Pacific: +604 291 3600

Ewrop, y Dwyrain Canol, ac Affrica: +44 1344 328 300

Americas: +1 800 447-2273

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyflwyniad hwn yn gyfrinachol. Gwaherddir yn llwyr unrhyw ddefnydd, datgeliad, atgynhyrchu neu ledaenu yn llawn neu'n rhannol, heb awdurdod mewn unrhyw gyfrwng neu mewn unrhyw fodd, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan IHS Markit neu unrhyw un o'i gysylltiadau ("IHS Markit"). Mae IHS Markit yn berchen ar holl logos ac enwau masnach IHS Markit sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn sy'n ddarostyngedig i drwydded. Mae'r farn, datganiadau, amcangyfrifon a'r rhagamcanion yn yr adroddiad hwn (gan gynnwys cyfryngau eraill) yn eiddo'n llwyr i'r awdur(on) unigol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn IHS Markit. Nid oes gan IHS Markit na'r awdur(on) unrhyw rwymedigaeth i ddiweddarau'r adroddiad hwn os bydd unrhyw gynnwys, barn, datganiad, amcangyfrif neu dafuniad ("gwybodaeth") yn newid neu'n dod yn anghywir wedi hynny. Nid yw IHS Markit yn gwneud unrhyw warant, wedi'i lynegi na'i awgrymu, o ran cywirdeb, cyflawnrwydd neu amseroldeb unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad hwn, ac ni fydd yn atebol mewn unrhyw ffordd i unrhyw dderbynnydd am unrhyw wallau neu hepgoriadau. Heb gyfyngu ar yr uchod, ni fydd IHS Markit yn atebol o gwbl i unrhyw dderbynnydd, p'un ai mewn contract, mewn camwedd (gan gynnwys esgeulustod), o dan warant, o dan statud neu fel arall, mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddirfod a ddioddefir gan unrhyw dderbynnydd o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth a ddarperir, neu unrhyw gamau gweithredu a bennir ganddo ef neu unrhyw drydydd parti, p'un a ydynt yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth a ddarperir ai peidio. Ni ddylid cymryd bod cynnwys dolen i wefan allanol gan IHS Markit yn ardystiad o'r wefan honno na pherchnogion y wefan (na'u cynhyrchion/gwasanaethau). Nid yw IHS Markit yn gyfrifol am gynnwys nac allbwn gwefannau allanol. Hawlfraint © 2021, IHS Markit®. Cedwir pob hawl a phob hawl eiddo deallusol gan IHS Markit.